Cyngor Cymuned Pistyll

**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth, 12fed o Ragfyr, 2017 am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol**
Cynghorwyr – Lisbeth James (LJ), Sianelen Pleming (SP), Sara Williams (SW) John Owen (JO), Griffith Jones (GJ), Gwilym Williams (GW) a'r Cyng. Aled Jones (AJ)

1. **Hysbysiadau y Cadeirydd** - Croesawyd pawb a oedd yn bresennol.

2. **Ymddiheuriadau –** Olwen Roberts, William Jones.

3. **Datgan Diddordeb –** Griffith Jones (Eitem 7.)

4. **Diweddariadau asedau –** Cafwyd adroddiadau ar gyflwr gwahanol asedau'r Cyngor. Gan nad oes tystiolaeth iddi gael ei defnyddio a'i bod yn berygl penderfynwyd fod angen tynnu'r coed oddi ar fainc Tan y Bwlch. *Bu GJ mor garedig a chytuno i wneud hynny.* Gellir ystyried cyfllwr mainc Pistyll yn y cyfarfod nesaf.

5. **Cofnodion**

5.1 Cynigodd John Owen fod cofnodion y 14 egTachwedd, 2017 yn gywir. Eiliodd Griff Jones ac fe'u mabwysiadwyd.

5.2 Materion yn codi –

5.2.1 **Dŵr yr Eifl** – Nid yw'r gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau eto.
Adroddwyd fod y ffordd heibio Gors Lwyd ar Lôn Plas Llithfaen wedi'i rhychu. Nodwyd fod 2 dwll archwilio ger neu yn y man wedi cau. Cyngigiodd GJ i'r Clerc ofyn i'r Cyngor Sir ddelio a'r mater. Eiliodd SW a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu.*

5.2.2 **Mynwent Pistyll –** Nodwyd fod atgyweireio'r wal derfyn mewn llaw. Bydd angen adolygu'r yswiriant pan y bydd y gwaith wedi'i gwblhau.

5.2.3 **Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn -***Y Clerc i barhau i ymchwilio archif y Cyngor Cymuned o ran hyd a lled eu cyfrifoldeb am ran isa'r maes parcio.*

5.2.4 **Gor-yrru trwy Llithfaen -** Nododd y Clerc ei fod wedi wedi cysylltu â'r heddlu am ddiweddariad a'i fod yn aros am eu hymateb. Pe na dderbynir ymateb derbyniol yn y dyddiau nesaf cynigiodd SW i'r Cyngor yrru llythyr o gwyn i'r Heddlu ynglyn a'r diffyg cynnydd ers adroddiad SCCH Geraint Williams ar y 9fed o Fai eleni. Pe na byddai ymateb cynigiodd i'r Cyngor ysgrifennu llythyr o gwyn i Gomisiynydd Heddlu Gogledd Cymru. Eiliodd SP a chytun0odd pawb. *Y Clerc i weithredu fel y bo'n briodol.*

5.2.5 **Y Lôn o flaen Tŷ Nest -** Nodwyd fod y mater mewn llaw gan OR.

5.2.6 **Carreg Filltir Pistyll –** Yn dilyn trafodaeth cynigiodd SP i'r Clerc geisio darganfod pwy yw'r arbenigwr perthnasol yn y Cyngor Sir ac yna gohebu ac o neu hi gan

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

esbonio nad yw'r garreg yn ei safle gwreiddiol. Gallai gysylltu'n anffurfiol gyda'r person perthnasol yn dilyn yr ohebiaeth os y byddai hynny'n briodol. Eiliodd GJ a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu*.

5.2.7 **Tir Comin** - *Y Clerc i barhau a'i ymchwil i ddyletswyddau'r Cyngor Cymuned yng nghyd destun y Tir Comin yn lleol.*

5.2.8 **Iechyd a Diogelwch -** Nododd y Clerc ei fod yn y broses o ddarparu cynllun gweithredu.

5.2.9 **Llythyr Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru -** Nododd y Clerc ei fod wedi ymateb i'r llythyr gan Fynediad Ceffylau Gogledd Cymru trwy nodi nad yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw broblemau yn y plwyf yma. Fe'u gwahoddwyd i gysylltu os yr ydynt yn ymwybodol o unrhyw broblem.

6. **Canolfan Llithfaen –** Adroddodd y Clerc ei fod wedi cysylltu a Chyfreithiwr y Cyngor Cymuned ynglyn ac eitem 3.26 ar y Brydles ddrafft bresennol ond nad oedd ymateb i law erbyn y cyfarfod. Gan fod angen arweinad ar hyn cyn cysylltu â Chyfreithiwr y Cyngor Sir penderfynwyd dilyn y cais i Gyfreithiwr y Cyngor Cymuned i fyny gan ofyn am ymateb ar frys. *Y Clerc i weithredu*.

7. **Ceisiadau Cynllunio –** Cais Rhif: C17/1178/43/LL: Estyniad deulawr cefn, 5 Liverpool Terrace, Llithfaen, Pwllheli, LL536NN - Nid oedd GJ yn bresennol yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ar y cais hwn.
Cynigiodd JO fod y Cyngor cefnogi'r cais. Eiliodd SW a chutunodd pawb. *Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.*

8. **Materion Lleol eraill a godwyd o flaen llaw –**

8.1 Adroddwyd fod angen dybryd i dorri coed ar y ffordd rhwng Penisarhos a Chefn Tyddyn yn Pistyll. *Y Clerc i ddilyn y mater i fyny.*

9. **Gohebiaeth -**

9.1 **Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru -** Cylchredwyd copi ar e-bost ac fe ddarparwyd copi ar gyfer y cyfarfod.

9.2 **Gwariant Adran 137 –** Adroddwyd y bydd y terfyn yn £7.86 yr etholwr yn 2018-19.

9.3 **Rhaglen waith trafnidiaeth -** Adroddwyd fod y Cyngor Sir yn ymgymryd a gwaith ar y ffosydd ar y B4417 yn Llithfaen a rhwng Nefyn a Phistyll.

9.4 **Lansiad adroddiad o'r ymchwiliad i unigedd ac arwahanrwydd -** Cyflwynodd y Clerc adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Age Cymru. Cyfeiriodd hefyd at ffynhonnel ariannu 'Gwanwyn 2018'

9.5 **Ceisiadau am nawdd –**Derbynwyd ceisiadau am nawdd. Penderfynwyd eu hystyried yng nghyfarfod mis Mawrth yn unol a'r drefn arferol.

9.6 **Penodi Aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned –** Ni ddaeth enwebiad ymlaen.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

9.7 **Biniau Halen –** Hysbyswyd y Cyngor fod angen ail-lenwi'r y bin halen uchaf ar Lôn Plas, Llithfaen. *Y Clerc i drefnu*.

10. **Cyllid –**

10.1 **Trafodion y gyfriflen banc ddiweddaraf –**

£185.00 Eurwyn Griffith (Cyflog a threuliau Tachwedd)
Balans yn y Banc:
Cyfredol £6069.77
Cadw £2144.17

10.3 T**aliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -**

| | | |
|---|---|---|
| E Griffith (Cyflog Clerc) | £160.00 | |
| √ (Costau/treuliau) | £25.00 | £185.00 |

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 9fed o Ionawr, 2018am 7:30 y.h.**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347